# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **26 Tachwedd 2019** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Nia Jeffreys** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Delyth G Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **01286 679708** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 Drafft** |

1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo'r ddogfen fel drafft ar gyfer ymgysylltu gyda'r cyhoedd

2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Er mwyn sicrhau fod cytundeb ar gynnwys dogfen ymgynghorol Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 Cyngor Gwynedd. Pwrpas y Cynllun ydi lleihau anghydraddoldeb rhwng pobl sydd â nodweddion gwarchodedig a phobl sydd heb y nodweddion hynny yn unol â'r ddyletswydd dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a dymuniad y Cabinet.

3 CYFLWYNIAD

Dyma drydydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor. Cyhoeddwyd y cyntaf yn 2012 a'r un canlynol ym mis Mawrth 2016. Mae Cynllun 2020-24 yn adeiladu ar y cynlluniau blaenorol hyn gan adnabod fod dal waith craidd i'w wneud i sicrhau cydraddoldeb i bobl gyda'r 9 nodwedd a ddiogelir dan y Ddeddf.

Credwn, os yw'r gwaith craidd yma'n cael ei wneud yn iawn, bydd yn rhoi sylfaen da i sicrhau fod cydraddoldeb yn cael ei wreiddio'n gryfach drwy holl waith y Cyngor.

I'r perwyl yma mae'r Cyngor am weithio ar y 5 amcan yma:

- Cryfhau ymwybyddiaeth Staff ac Aelodau Etholedig Cyngor Gwynedd o'r maes cydraddoldeb, a sicrhau eu bod yn gwybod sut i weithredu'n briodol.
- Gwella'r wybodaeth sydd gennym gan ac am bobl gyda nodweddion gwarchodedig.
- Adeiladu ar y gwaith sydd wedi ei wneud yn barod i wreiddio Asesiadau Effaith Cydraddoldeb fel arf i sicrhau gwell penderfyniadau.

- Gweithredu i leihau'r bwlch tâl rhwng y rhywiau ac adnabod unrhyw fwlch tâl ar sail unrhyw nodwedd arall.
- Gweithredu i gynyddu amrywiaeth ein gweithlu.

Ein bwriad wrth wneud hynny yw cymryd cam yn ôl ac adnabod yr hyn fydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i wella bywydau pobl sydd â nodweddion gwarchodedig. Ein man cychwyn ym mhob amcan yw casglu tystiolaeth, gan ganolbwyntio ar ymgysylltu gyda phobl â nodweddion gwarchodedig er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y peth iawn. Dim ond drwy wneud y peth iawn, ac ystyried tegwch i bawb, fyddwn ni'n gallu rhoi pobl Gwynedd yn ganolig i bopeth rydym yn ei wneud.

4 RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Mae'r cynllun yma wedi ei baratoi yn unol â'r ddyletswydd i gynhyrchu a chyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae'r gwaith o gynnwys cynrychiolwyr pobl gyda nodweddion gwarchodedig wedi cymryd lle o'r cychwyn ond nawr rydym yn awyddus i fynd allan i ymgysylltu'n ehangach fydd yn rhoi'r cyfle i bawb sydd eisiau i fynegi barn ar y cynllun arfaethedig. Byddwn yn cymryd camau i sicrhau ein bod yn cyrraedd pobl sydd ddim fel arfer yn ymateb i ymgysylltiadau.

6 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Cyfnod o ymgysylltu o Ragfyr 2019 i Chwefror 2020.

Drafft terfynol i'r Cabinet ei gymeradwyo ym mis Mawrth 2020.

7 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Rydym wedi cynnwys y Grŵp Craidd Cydraddoldeb o gychwyn y broses. Byddwn yn ymgysylltu yn eang os fydd y Cynllun drafft yn cael ei gymeradwyo.

Mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi ei atodi.

**Sylwadau'r Swyddogion Statudol**

**i) Prif Swyddog Cyllid**

Rwyf yn cefnogi'r adroddiad, a'r bwriad i ymgynghori gyda'r cyhoedd ar gynnwys y Strategaeth ddrafft.

Nodir nad oes cost i ddau o'r amcanion yn y Strategaeth, ac rwyf yn gyfforddus mai cymharol isel fydd cost y tri amcan arall. Disgwyliaf y bydd modd cwrdd â'r costau hyn o fewn cyllidebau refeniw cyfredol ond os ddim, bydd angen gwneud cais am gyllid ychwanegol trwy'r trefniadau arferol.

### ii) Swyddog Priodoldeb

Yn unol â dyletswyddau statudol y Cyngor dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb mae angen i'r Cyngor adolygu ei Amcanion Cydraddoldeb o leiaf pob pedair blynedd. Mae cynnal proses ymgysylltu yn cyfarch gofynion ac egwyddorion statudol ynglŷn a chynnal adolygiad . Nid oes gennyf unrhyw beth pellach i'w ychwanegu o ran priodoldeb.